SFJGK503

# Cynnal asesiad i nodi anghenion unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol, a risgiau iddynt

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud ag asesu’r anghenion a’r risgiau i unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae’n cynnwys unigolion yn yr asesiad, lle bynnag y bo’n bosibl, a chytuno ar y ffactorau a’r anghenion y mae angen mynd i’r afael â nhw fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus.

Bydd deilliannau canlyniadol yr asesiad yn llywio datblygu a gweithredu cynlluniau ymyrryd priodol, gyda safonau galwedigaethol cenedlaethol ar wahân, ond cysylltiedig, yn mynd i’r afael â’r gweithgarwch hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. esbonio eich rôl a'ch cyfrifoldeb i unigolion
2. cynnal trafodaethau gydag unigolion mewn amgylcheddau priodol a diogel
3. esbonio polisïau cyfrinachedd eich sefydliad wrth unigolion, gan gynnwys amgylchiadau pan mae'n rhaid datgelu gwybodaeth
4. nodi natur a lefel y risg i unigolion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
5. casglu gwybodaeth oddi wrth unigolion i nodi eu hanghenion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
6. asesu arwyddocâd sefyllfa gyffredinol unigolion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad, gan gynnwys:
   - eu rhwydwaith cymdeithasol
   - lles emosiynol
   - lles seicolegol
7. cwblhau asesiadau risg gan ddefnyddio modelau, offer ac arweiniad asesu priodol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
8. darparu tystiolaeth i ddangos sylfaen penderfyniadau ynghylch y ffactorau risg posibl, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
9. esbonio deilliannau tebygol y risg a nodwyd wrth unigolion, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
10. pennu'r ffactorau sy'n cyfrannu at risg i unigolion, ac yn prysuro'r risg honno, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau
11. nodi mesurau sy'n lleihau risg i unigolion a'u teulu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
12. trafod datrysiadau gyda phobl berthnasol eraill sy'n lleihau risg i unigolion a'u teulu, lle y bo'n berthnasol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
13. atgyfeirio sefyllfaoedd i eraill am asesiad mwy manwl o anghenion unigolion, pan fo angen, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
14. rhybuddio pobl eraill berthnasol pan fyddwch yn nodi pryderon am risg niwed i unigolion a'u teulu, lle y bo'n berthnasol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad
15. blaenoriaethu anghenion uniongyrchol a hirdymor unigolion yn unol â gofynion sefydliadol
16. gydag unigolion, archwilio'r opsiynau sydd ar gael a buddion ac effaith

opsiynau, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad

17. cytuno gydag unigolion ar opsiynau cymorth sy’n bodloni eu hanghenion yn unol â chylch gwaith eich sefydliad
18. hyrwyddo ymgysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol mewn ffyrdd sy’n annog unigolion i gydnabod effeithiau buddiol gwneud hynny
19. cytuno ar gamau gweithredu ac amserlenni cymorth i fodloni anghenion unigolion yn unol â’ch rôl a’ch cyfrifoldebau
20. trafod asesiad anghenion unigolyn gyda phobl berthnasol eraill yn unol â gofynion sefydliadol, gan gynnwys rhannu materion, penderfyniadau a phrosesau allweddol
21. cynnal cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau’r sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni.
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
4. pwysigrwydd adolygu asesiadau risg ac anghenion yn barhaus pan fydd gwybodaeth newydd ar gael
5. pwy y dylech roi gwybod iddynt os nad allwch gefnogi unigolion o fewn eich rôl a'ch awdurdod
6. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned leol
7. yr effaith bosibl ar bawb y mae cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi effeithio arnynt, gan gynnwys teulu'r unigolyn
8. anghenion gwybodaeth a chymorth pobl sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol a sut i fodloni'r rhain
9. trefniadau amlasiantaethol ar gyfer darparu cymorth ac ymyriadau i unigolion yn eich ardal
10. sut i fod yn sensitif ac yn hyblyg eich ffordd, gan ddefnyddio technegau sy'n briodol i ymddygiad ac agwedd unigolion
11. rôl ac effaith croestoriadedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig a thrais rhywiol
12. offer, modelau a phrosesau asesu risg ac anghenion a sut i'w dewis a'u defnyddio
13. y wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer gwneud asesiad cynhwysfawr o anghenion a risgiau unigolion
14. pwysigrwydd nodi risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol ddulliau cyfathrebu wrth weithio gydag unigolion, gan gynnwys
    - ffonau symudol
    - defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
    - cyfathrebu electronig a rhithwir
15. dulliau o wirio a chadarnhau gwybodaeth sydd ar gael
16. sut i wahaniaethu rhwng tystiolaeth a welwyd yn uniongyrchol, tystiolaeth o

ffynonellau dibynadwy ac adroddiadau ail-law
17. ffactorau sy'n effeithio ar lefelau risg i unigolion,
18. gwybodaeth sy'n ofynnol i adnabod unigolion y mae perygl o'r canlynol iddynt:
• ailerledigaeth
• gorfodaeth
19. pwysigrwydd asesu ffactorau sy'n cynyddu risg niwed a chamdriniaeth i eraill gan gyflawnwyr
20. y camau gweithredu sy'n ofynnol pan fyddwch yn nodi risg niwed a chamdriniaeth i eraill gan
21. amgylchiadau sy'n gofyn am asesiadau ychwanegol a sut i drefnu'r rhain
22. sut i symud cymorth yn ei flaen pan fydd risg i unigolion
23. pwysigrwydd meithrin ffydd ac empathi gydag unigolion, a dulliau o wneud
24. sut i greu amgylchedd sy'n gwneud i unigolion deimlo'n gartrefol
25. sut i gymhwyso ymarfer ystyriol o drawma yn eich maes gwaith
26. gwahanol ymatebion i drawma a'u heffaith
27. sut i gymhwyso dull seiliedig ar gryfderau, dan arweiniad anghenion, yn benodol i fodloni anghenion yr unigolyn
28. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
29. dulliau a thechnegau ar gyfer annog unigolion i ymgysylltu â'r cymorth a ddarperir
30. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu i fodloni anghenion yr unigolyn
31. pwysigrwydd cyfathrebu dieiriau, fel iaith y corff a gwrando gweithredol
32. sut mae gwahanol ddiwylliannau yn defnyddio ac yn dehongli iaith y corff
33. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o'u goresgyn
34. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'ch gwerthoedd a'ch credoau eich hun a'r effaith y gallant ei chael wrth weithio gyda chyflawnwyr ac unigolion
35. sut i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol neu a allai fod yn niweidiol, a phwysigrwydd gwneud hynny
36. yr amgylchiadau pan fydd angen mynd yn groes i ddymuniadau datganedig unigolion
37. pwysigrwydd sicrhau bod unigolion yn deall pam nad yw eu dymuniadau datganedig yn cael eu bodloni
38. cyfyngiadau cyfrinachedd sy'n berthnasol i'ch rôl

## Geirfa

**Cam-drin Domestig**

Patrwm o ymddygiad rheolaethol, ymddygiad gorfodaethol, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng pobl sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd, neu a fu, yn bartneriaid clos neu'n aelodau teulu, ni waeth beth yw eu rhywedd neu eu rhywioldeb. Gall y cam-drin gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gyfuniad o gam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol.

Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Mae plant hefyd yn cael profiad o gam-drin domestig pan fyddant yn dyst i gam-drin domestig.

**Croestoriadedd**

Natur gysylltiedig categoreiddiadau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd, yr ystyrir eu bod yn creu systemau gwahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd ac sy'n gyd-ddibynnol

**Dull dan arweiniad anghenion**

Math o eiriolaeth sy'n gosod y goroeswr yn ganolog i ymyriadau a gwaith cymorth. Mae hyn yn golygu gwrando ar eu hanes, eu pryderon a'u hanawsterau, a nodi cryfderau. Mae'n arwain at gynhyrchu pecynnau cymorth yn gydgynhyrchiol, sy'n benodol i anghenion unigol goroeswyr. Mae dull dan arweiniad anghenion yn ymdrech ymrymusol sy'n talu sylw i amgylchiadau croestoriadol goroeswyr, gan osgoi maglau rhagfarn sefydliadol neu ymatebion aneffeithiol.

**Dull seiliedig ar gryfderau**

Cydnabod bod gan unigolion gryfderau. Cydnabyddir y cryfderau hyn ac adeiladir arnynt fel rhan o gynorthwyo ag adfer.

**Pobl mewn perygl**

Unigolyn y diffinnir bod arno angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, risg cam-drin neu esgeulustod

**Trais Rhywiol (gweler hefyd ddiffiniadau isod y gellir eu defnyddio sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol neu ymosodiad rhywiol)**

Yn debyg o ran ei natur i gam-drin rhywiol, ond defnyddir y term hwn yn fwy aml i

ddisgrifio digwyddiadau byr neu unigol, megis ymosodiad rhywiol gan ddieithryn.

**Cam-drin Rhywiol**

Ymddygiad rhywiol digroeso gan un person tuag at berson arall. Mae hwn yn aml yn cael ei gyflawni trwy rym neu trwy gymryd mantais ar y person arall. Defnyddir y term hwn yn gyffredinol pan fydd yr ymddygiad rhywiol yn rheolaidd neu'n digwydd dros gyfnod estynedig.

**Ymosodiad Rhywiol**

Unrhyw ymddygiad rhywiol digroeso nad yw person wedi cydsynio iddo. Gall hyn amrywio o drais i voyeuriaeth i orchestu, i gyffwrdd digroeso dros neu o dan ddillad.

**Ymarfer Ystyriol o Drawma**

Ymagwedd at ymyriadau iechyd a gofal sydd â'i sail mewn deall bod amlygiad i drawma'n gallu effeithio ar unigolyn. Bydd ymarferwyr yn gweithio mewn ffyrdd nad ydynt yn ailachosi trawma yn anfwriadol i'r unigolyn, ac mae pwyslais ar ddiogelwch, dewis, cydweithrediad a grymuso'r cleient.

SFJGK503

Cynnal asesiad i nodi anghenion unigolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol, a risgiau iddynt

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Health |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJGK503 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Eiriolydd Annibynnol ynghylch Trais Rhywiol, Gweithiwr Lloches, Gweithiwr Argyfwng, Cynghorydd Annibynnol Trais Domestig (IDVA) |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | cleientiaid; defnyddwyr gwasanaeth; trais; asesu; safonau proffesiynol; cyfrinachedd; trafod; ymyriadau; cymorth; bregsuter |